Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CAS-02112-T2N0G8

Mr Ross Irvine
RPS Consulting Services Limited

E-bost: Ross.Irvine@rps.tetratech.com

21 Ionawr 2025

Annwyl Ross Irvine

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 – ADRAN 62D
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
CAIS GAN LIGHTROCK POWER LIMITED AR GYFER DATBLYGIAD ARFAETHEDIG FFERM SOLAR GYDA CHAPASITI CYNHYRCHU GOSODEDIG O 42MW A SEILWAITH ATEGOL CYSYLLTIEDIG, GAN GYNNWYS IS-ORSAF 132 KV, AR DIR I'R DWYRAIN O DDYFFRYN, TUA 5 KM I'R GOGLEDD-ORLLEWIN O GANOL TREF Y BARRI, BRO MORGANNWG

CYFEIRNOD Y CAIS: CAS-02112-T2N0G8

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygydd a archwiliodd y cais cynllunio uchod ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

2. Yn unol ag adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliad 3 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, cyflwynwyd y cais i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad.

3. Mae copi o adroddiad yr Arolygydd (IR) wedi'i amgáu. Mae'r holl gyfeiriadau at rifau paragraffau yn ymwneud ag adroddiad yr Arolygydd, oni nodir yn wahanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Prif Ystyriaethau – Cais DNS

4. Y prif ystyriaethau a amlygwyd gan yr Arolygydd yw:
(a) cymeriad a golwg yr ardal;
(b) asedau hanesyddol; ac
(c) ecoleg

Cymeriad a golwg

5. Mae'r Arolygydd yn datgan y byddai'r paneli solar ar y datblygiad hwn yn cael eu cuddio i raddau helaeth gan wrychoedd cryf, aeddfed sy'n ymylu'r cae lle byddent yn cael eu gosod. Bydd y camerâu teledu cylch cyfyng arfaethedig yn weladwy yn agos atynt yn unig, a byddai'r tirweddu arfaethedig yn lliniaru effaith y datblygiad arfaethedig ymhellach. Byddai rhan o'r fferm solar yn weladwy o dir uwch i'r de a'r gorllewin, yn enwedig wrth edrych tua'r gogledd o eiddo a llwybrau troed yng nghyffiniau Port Road East yn y Barri ac o Dog Lane ger Fferm Little Harmston. (IR 72)

6. Mae'r Arolygydd yn cydnabod, o'r lleoliadau a grybwyllwyd uchod, y byddai newid o gaeau gwyrdd i aráe o baneli solar yn amlwg ac y byddai cymeriad a golwg y dirwedd yn newid. Fodd bynnag, mae'n datgan nad oes modd gweld y safle cyfan o'r golygfannau hyn o ganlyniad i flociau o goetir a'r dopograffeg donnog. Mae'r Arolygydd o'r farn na fyddai'r amhariad ar y dirwedd wledig ehangach i'r fath raddau y byddai'n tynnu'n sylweddol oddi ar Ardal Tirwedd Arbennig Basn Dyffryn a Llethrau'r Grib. (IR 73)

Effeithiau cronnus

7. Mae'r Arolygydd yn datgan ei fod wedi archwilio'r ddau ganiatâd cynllunio diweddar arall ar gyfer ffermydd solar, sef Oaklands a Pharc Dyffryn, ar y cyd â'r safle hwn i asesu effaith gronnus y datblygiadau ar gymeriad a golwg. (IR 70).

8. Mae'r Arolygydd yn nodi nad oedd modd gweld y tri safle i gyd mewn un olygfa oherwydd y dopograffeg donnog a'r coetir yn y canol. Y prif ymdeimlad o hyd fyddai edrych dros dirwedd wledig sydd â choetir a phorfa wedi'i hamgáu gan wrychoedd aeddfed yn brif nodwedd arni, sy'n frith o ffermydd ac aneddiadau bach. (IR 75-76)

9. Daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad a golwg yr ardal a'i fod yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu.

Asedau Hanesyddol

10. Mae'r Arolygydd yn ystyried safleoedd hanesyddol y gallai'r datblygiad effeithio arnynt, ond mae'n datgan bod y safleoedd wedi'u sgrinio neu eu sgrinio'n rhannol gan wrychoedd a choetir a thopograffi. (IR 78-80)

11. Mae'r Arolygydd wedi argymell amod sy'n mynnu bod cynllun lliniaru amgylchedd hanesyddol yn cael ei gyflwyno i ddiogelu unrhyw fuddiannau archaeolegol ar y safle. (IR 81)

12. Daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwarchod lleoliad asedau hanesyddol a'i fod yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg (IR 82).

Ecoleg

13. O ran gosogion, mae'r Arolygydd yn fodlon nad oes rheswm i amau canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol, sy'n datgan bod y golygon o osogion yn gysylltiedig â'r un unigolyn, yn ôl pob tebyg, ac ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth o fridio.

14. Mae'r Arolygydd yn nodi y bydd chwe thiriogaeth fridio ehedyddion yn cael eu colli, ond y bydd pedair llain yn cael eu creu ar gyfer ehedyddion yn y caeau i'r gorllewin o'r safle. Disgwylir i'r lleiniau newydd wella gwerth y caeau i ehedyddion sy'n bridio, ac efallai ymestyn y tymor bridio er mwyn galluogi mwy nag un ymgais i fridio. O ystyried boddhad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) â'r arolwg tylluanod gwynion a'i argymhellion, mae'r Arolygydd yn fodlon nad oes angen arolygon ychwanegol. (IR 84)

15. Mae'r Arolygydd yn argymell bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) (Amod 5). Bydd y CEMP yn cynnwys mesurau i osgoi a lliniaru effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys arolygon ychwanegol, osgoi gwaith i wrychoedd a glaswelltir pan fydd adar yn bridio a mesurau i ddiogelu ymlusgiaid, gan gynnwys nadroedd defaid a nadroedd y gwair. Ar ôl adeiladu, byddai Cynllun Lliniaru, Gwella a Rheoli Amgylcheddol (EMEMP) (Amod 7) yn cynnwys strategaeth i warchod chwyn âr prin, creu llochesau ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid, blychau adar a blwch nythu tylluan wen a blychau clwydo ystlumod. (IR 85)

16. Daw'r Arolygydd i'r casgliad, o ystyried nifer o fesurau ac yn ddarostyngedig i fesurau a gynhwysir yn y CEMP a'r EMEMP, fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu a Pholisi Cynllunio Cymru (PPW).

Ystyriaethau Eraill

17. Mae'r Arolygydd yn asesu ystyriaethau a phryderon eraill yn IR 87-95.

Priffyrdd

18. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Dyffryn Lane yn gul a dim ond lôn sengl sydd mewn mannau. Nid oes tystiolaeth gadarn i gefnogi honiadau y byddai'r gwaith adeiladu'n cymryd hyd at ddwy flynedd. Byddai'r system hebrwng/tywys a gynigir yn sicrhau diogelwch, ond mae'n anochel y bydd y cyfnodau adeiladu a datgomisiynu yn aflonyddgar ac yn achosi anghyfleustra. Fodd bynnag, mae'r cyfnod adeiladu chwech i naw mis yn gyfran fach yn unig o oes 40 mlynedd y datblygiad arfaethedig. Ymhellach, byddai'r chwe symudiad cerbyd nwyddau trwm (HGV) y dydd yn cael eu gwasgaru dros gyfnod o wyth awr (9.00 i 17.00), felly ni fyddai llif cyson drwy gydol y dydd. (IR 87)

Amodau byw

19. Mae'r Arolygydd yn datgan y byddai unrhyw effeithiau niweidiol trwy sŵn ac aflonyddwch yn digwydd yn ystod camau adeiladu a datgomisiynu'r datblygiad yn unig ac yn cael eu lliniaru gan fesurau yn y CEMP. (IR 88)

20. Mae'r Arolygydd yn cydnabod bod yr Asesiad Fflachiau a Llacharedd yn adrodd bod adlewyrchiadau solar yn geometrig bosibl tuag at 31 o anheddau. Fodd bynnag, ym mhob achos, disgwylir i lystyfiant presennol a/neu dir yn y canol rwystro'r golygfeydd yn sylweddol. Mae'r Arolygydd yn nodi nad oes tystiolaeth dechnegol i herio'r canfyddiadau hyn. (IR 88)

21. Ni all yr Arolygydd weld unrhyw reswm pam y byddai'r is-orsaf yn peri risg i fywyd cyhyd â'i bod yn cael ei gosod a'i chynnal a'i chadw'n iawn (IR 89).

Tir amaethyddol

22. Mae'r Arolygydd yn nodi na fyddai tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei golli o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig hwn. (IR90)

Llifogydd a draenio

23. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y safle ym Mharth A, heblaw am y llwybr cebl sy'n croesi Parth C1 ac C2. Bydd y cebl yn cael ei ddrilio'n gyfeiriadol ac ni fyddai'n cael llawer o effaith, os o gwbl, ar berygl llifogydd ar y safle neu yn rhywle arall. (IR 91)

24. Mae'r Arolygydd yn datgan bod draenio dŵr wyneb yn destun gweithdrefn gydsynio ar wahân, ond ni ddisgwylir i'r datblygiad gynyddu dŵr ffo. Byddai llystyfiant newydd sy'n tyfu o dan a rhwng y paneli yn gwasgaru dŵr ffo ac yn lleihau erydiad pridd. (IR 92)

25. Mae'r Arolygydd yn nodi bod paneli solar wedi'u dylunio i fod yn yr awyr agored ac nad oes tystiolaeth argyhoeddiadol y bydd yr haen o ddeunydd sydd arnynt yn golchi ymaith (IR 93).

Twristiaeth a defnyddio llwybrau troed

26. O ystyried casgliadau'r Arolygydd ynglŷn â'r effaith ar gymeriad a golwg yr ardal a thraffig, nid yw'n credu y byddai'r datblygiad yn cael effaith berthnasol ar dwristiaeth na busnesau yn yr ardal. (IR 94)

27. Mae'r Arolygydd yn nodi bod llwybrau troed yn croesi'r dyffryn, ond mae'n ystyried y byddai'r amser a dreulir gan gerddwyr yn cerdded trwy'r paneli yn fyr ac nid yw'n ystyried y byddai effaith ar eu mwynhad cyffredinol o'r llwybr a chefn gwlad. Bydd y paneli'n cael eu meddalu a'u sgrinio gan wrychoedd newydd wrth i amser fynd heibio. (IR 95)

Amodau a Rhwymedigaethau

28. Mae'r Arolygydd wedi darparu rhestr o amodau cynllunio y mae'n ystyried eu bod yn bodloni'r profion yng Nghylchlythyr 16/14: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu (IR 96-98).

Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol yr Arolygydd

29. Mae'r Arolygydd yn nodi bod polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn mynnu bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi pwys sylweddol ar yr angen i fodloni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, ac y byddai gan y cynllun gapasiti cynhyrchu gosodedig o oddeutu 42MW (IR 99).

30. Mae'r Arolygydd o'r farn bod y dirwedd yn gallu ymdopi â'r datblygiad arfaethedig heb niwed ac, yn ddarostyngedig i amodau, na fyddai'n cael effaith niweidiol ar drigolion cyfagos, buddiannau treftadaeth ac ecoleg na diogelwch ar y priffyrdd (IR 99).

31. Daw'r Arolygydd i'r casgliad fod y cynnig yn cyd-fynd â Pholisïau 9, 17 a 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP1, SP10, MG17, MG21, MD8 ac MD19 y CDLl. (IR 100)

Argymhellion

32. Mae'r Arolygydd yn argymell bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi, yn ddarostyngedig i amodau.

Casgliad a Phenderfyniad

33. Cytunaf ag arfarniad yr Arolygydd o'r prif ystyriaethau, casgliadau'r IR a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, a derbyniaf yr argymhelliad. Felly, rhoddaf ganiatâd cynllunio drwy hyn ar gyfer CAS-02112-T2N0G8, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr Atodiad i'r llythyr penderfyniad hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf WFG")

34. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â'r Ddeddf WFG, gynnal datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.

Amcanion llesiant

35. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae rhoi caniatâd cynllunio yn bodloni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod y bydd rhai effeithiau negyddol dros dro ar yr amgylchedd yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu. Er y byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru trwy'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), byddent yn cael effaith negyddol gyfyngedig ar yr amcan i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

36. Fodd bynnag, at ei gilydd, byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol", "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.

37. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5(2) y Ddeddf WFG ac 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar y Ddeddf WFG'.

Edrych tuag at yr hirdymor

38. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr amcan tymor hir i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

39. O fewn fframwaith proses benderfynu statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a dderbyniwyd trwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cais hwn.

Defnyddio ymagwedd integredig

40. Mae'r penderfyniad wedi ystyried y cynllun datblygu a'r ffordd y mae'n integreiddio meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws graddfeydd gofodol. Mae hefyd wedi ystyried amcanion y sefydliadau sector cyhoeddus hynny a fu'n ymwneud â'r broses ymgynghori sy'n dilyn eu hamcanion llesiant eu hunain o dan y Ddeddf WFG, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Atal

41. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â chynyddu diogeledd ynni.

Camau rhesymol

42. Rwyf wedi ystyried p'un a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol, o ystyried dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru. Nodaf mai'r penderfyniad arall fyddai gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol", "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Byddai effaith y penderfyniad arall hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral. O ganlyniad, rwy'n ystyried bod y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

43. Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at Gyngor Bro Morgannwg.

Yn gywir

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

ATODIAD A: Rhestr o Amodau Cynllunio a Argymhellir

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

   Rheswm: Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad a ganiateir trwy hyn yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau canlynol:

   Cynllun Lleoliad y Safle: JPW1781/008
   Cynllun Gosodiad Safle arfaethedig: LRP008 - PL-01/18
   Adran Panel PV nodweddiadol: LRP008-SD-01/03
   Cynllun Is-orsaf DNO 132kV: LRP008-SD-02/01
   Is-orsaf DNO 132kV (Adran): LRP008-SD-03/01
   Cynllun Llawr Is-orsaf Cwsmer: LRP008-SD-04/01
   Gweddluniau Is-orsaf Cwsmer: LRP008-SD-05/01
   Gwrthdröydd/Trawsnewidydd: LRP008-SD-06/01
   Ffensys Diogelwch a Theledu Cylch Cyfyng: LRP008-SD-07/01
   Gatiau Diogelwch: LRP008-SD-08/01
   Trawstoriad Trac Mynediad: LRP008-SD-09/01
   Clos Adeiladu Dros Dro: LRP008-SD-10/02
   Ffensys Palisâd a Theledu Cylch Cyfyng: LRP008-SD-11/01
   Tŵr 132kV Presennol gyda Llwyfan CSE: LRP008-SD-12/03

   Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni'n unol â'r cynlluniau, lluniadau a dogfennau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais.

3. Bydd y caniatâd a roddir drwy hyn yn dod i ben 40 mlynedd o'r dyddiad pan gaiff pŵer trydanol ei allforio gyntaf ('dyddiad allforio cyntaf') i'r rhwydwaith grid trydan, ac eithrio trydan a allforiwyd yn ystod profion a chomisiynu cychwynnol. Bydd cadarnhad ysgrifenedig o'r dyddiad allforio cyntaf yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol heb fod yn hwyrach nag un mis calendr ar ôl y digwyddiad.

   Rheswm: Er budd cymeriad a golwg yr ardal yn unol â Pholisi MG17 y CDLl.

4. Heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 40 mlynedd (neu o fewn 6 mis i roi'r gorau yn barhaol i gynhyrchu trydan) bydd cynllun datgomisiynu ac adfer safle ('Cynllun Datgomisiynu') yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig. Bydd y Cynllun Datgomisiynu yn cynnwys

   i) datganiad dull sy'n manylu ar broses a graddau gwaith gwaredu elfennau arwyneb y fferm solar ffotofoltaig a datblygiad cysylltiedig ac unrhyw sylfeini, systemau angori, llwybrau trac a cheblau islaw'r wyneb a gwaith cysylltiedig; a

   ii) mesurau adfer y safle yn dilyn yr holl weithrediadau datgomisiynu.

   Bydd y Cynllun Datgomisiynu, fel y'i cymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion a'r amserlenni cymeradwy.

Rheswm: Er budd cymeriad a golwg yr ardal yn unol â Pholisi MG17 y CDLl.

5. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio'r safle yn cychwyn nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CEMP yn cynnwys y manylion canlynol:
   - Parcio cerbydau gweithredwyr y safle ac ymwelwyr;
   - Llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
   - Storio peiriannau a deunyddiau ac ardaloedd cynnal a chadw cerbydau;
   - Palisiau diogelwch;
   - Cyfleusterau golchi olwynion;
   - Mesurau i reoli a lliniaru allyriadau arogl, llwch, mwg, llygryddion eraill a baw yn yr aer;
   - Cynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith dymchwel ac adeiladu,
   - Oriau gwaith;
   - Goleuo;
   - Rheoli a lliniaru sŵn a dirgryniad;
   - Manylion stripio, storio a gwella uwchbridd i'w ailddefnyddio, mesurau i atal pridd ffo a llygredd solidau mewn daliant;
   - Mesurau diogelu a lliniaru rhywogaethau a chynefinoedd;

   Bydd gwaith adeiladu'r datblygiad yn cyd-fynd â'r CEMP cymeradwy.
   Rheswm: Er mwyn diogelu amodau byw trigolion cyfagos a'r amgylchedd yn unol â Pholisi MD7 y CDLl.

6. Er gwaethaf yr Uwchgynllun Tirwedd ac Ecoleg, ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio safle yn digwydd nes bod cynllun tirlunio gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys arwyddion o'r holl goed presennol (gan gynnwys lledaeniad a rhywogaeth) a gwrychoedd ar y tir, yn nodi'r rhai sydd i'w cadw ac yn nodi mesurau i'w diogelu drwy gydol y datblygiad (yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol). Bydd yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio cymeradwy yn cael ei wneud yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni i'w weithredu a bydd unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu eu difrodi neu heintio'n ddifrifol yn cael eu hamnewid yn y tymor plannu nesaf ag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

   Rheswm: Er budd cymeriad a golwg yr ardal yn unol â Pholisi MG17 y CDLl.

7. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio safle yn digwydd nes bod Cynllun Lliniaru, Gwella a Rheoli Amgylcheddol wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y mesurau yn y cynllun yn cael eu cyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy ar gyfer oes y datblygiad.

   Rheswm: Sicrhau bod effeithiau bioamrywiaeth yn cael eu lliniaru a bod gwelliant a rheolaeth briodol yn cael eu sicrhau, yn unol â Pholisi MD9 y CDLl.

8. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio safle yn digwydd nes bod yr ymgeisydd, neu ei asiantau neu olynwyr mewn teitl, wedi sicrhau cytundeb ar gyfer cynllun ysgrifenedig o liniaru amgylchedd hanesyddol, sydd wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd, ac wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y rhaglen waith yn cael ei chyflawni'n unol â'r manylion cymeradwy.

   Rheswm: Er mwyn diogelu archaeoleg yn unol â Pholisi MD8 y CDLl.

9. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio safle'n digwydd nes bod Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu (CTMP) wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CTMP yn cynnwys manylion y llwybrau arfaethedig ar gyfer cerbydau adeiladu trwm, ardaloedd o fewn y safle ar gyfer troi a phasio er mwyn caniatáu i gerbydau adael y safle mewn gêr ymlaen. Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni'n unol â'r manylion cymeradwy.

   Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd yn unol â Pholisi MD7 y CDLl.

10. Bydd unrhyw agreg (ac eithrio cerrig chwarel crai, neu gerrig o ffynhonnell ardystiedig) neu ddeunydd agreg wedi'i ailgylchu sydd i'w fewnforio yn cael ei asesu cyn ei fewnforio am halogyddion cemegol neu eraill posibl yn unol â chynllun ymchwilio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dim ond deunydd cymeradwy fydd yn cael ei fewnforio.

    Rheswm: Sicrhau bod unrhyw risgiau annerbyniol o halogiad tir yn cael eu lleihau yn unol â Pholisi MD7 y CDLl.

Hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau yn adran 71ZB (hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad: Cymru) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

Hysbysiad am ddechrau datblygiad

Cyn dechrau unrhyw ddatblygiad y mae'r caniatâd Cynllunio hwn yn ymwneud ag ef, mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod Cynllunio lleol ar y ffurf a amlinellir yn Atodlen 5A Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylweddol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid eu rhoi i'r awdurdod Cynllunio lleol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Arddangos hysbysiad

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal datblygiad y mae'r caniatâd Cynllunio hwn yn ymwneud ag ef arddangos, yn y man lle mae'r datblygiad yn cael ei gynnal neu'n agos iddo, bob amser tra'i fod y cael ei gynnal, hysbysiad o'r caniatâd Cynllunio hwn ar y ffurf a amlinelir yn Atodlen 5B Gorchymyn CynllunioGwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylweddol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid 'r sawl sy'n cynnal y datblygiad eu harddangos i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad sicrhau bod yr hysbysiad:

(a) yn cael ei osod yn sownd a'i arddangos mewn man amlwg yn y man lle mae'r datblygaid yn cael ei gynnal neu'n agos iddo;

(b) yn ddarllenadwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei weld heb orfod mynd i mewn i'r safle; ac

(c) yn cael ei argraffu ar ddeunydd gwydn. Dylai'r sawl sy'n cynnal y datblygaid gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad (rhag cael ei symud ymaith ei guddio neu ei ddifwyno) ac, os bydd angen, ei amnewid.

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CAS-02112-T2N0G8

Mr Ross Irvine
RPS Consulting Services Limited

E-mail: Ross.Irvine@rps.tetratech.com

21 January 2025

Dear Ross Irvine

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 62D
THE DEVELOPMENTS OF NATIONAL SIGNIFICANCE (WALES) REGULATIONS 2016
APPLICATION BY LIGHTROCK POWER LIMITED FOR A PROPOSED DEVELOPMENT OF A SOLAR FARM WITH AN INSTALLED GENERATION CAPACITY OF 42MW AND ASSOCIATED ANCILLARY INFRASTRUCTURE, INCLUDING A 132 KV SUBSTATION AT LAND EAST OF DYFFRYN, APPROXIMATELY 5 KM NORTH-WEST OF BARRY TOWN CENTRE, VALE OF GLAMORGAN

APPLICATION REF: CAS-02112-T2N0G8

1. Consideration has been given to the report of the Inspector who examined the above Development of National Significance (DNS) planning application.

2. In accordance with section 62D of the Town and Country Planning Act 1990 and regulation 3 of The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016, the application was made to the Welsh Ministers for determination.

3. A copy of the Inspector's report (IR) is enclosed. All references to paragraph numbers, unless otherwise stated, relate to the IR.

Main Considerations – DNS application

4. The main considerations identified by the Inspector are:
   (a) the character and appearance in the area;
   (b) historic assets; and
   (c) ecology

Character and appearance

5. The Inspector states that the solar panels on this development would be largely hidden by strong, mature hedges lining the field in which they sit. The proposed CCTV will only be noticeable from close by, and the proposed landscaping would further mitigate the impact of the proposed development. Part of the solar farm would be visible from higher ground to the south and west, particularly looking north from properties and footpaths in the vicinity of Port Road East in Barry and from Dog Lane near little Harmston Farm. (IR 72)

6. The Inspector acknowledges that, from the locations mentioned above, a change from green fields to an array of solar panels would be noticeable and the character and appearance of the landscape would change. However, they state it is not possible to see the whole site from these viewpoints due to blocks of woodland and the undulating topography. The Inspector considers the wider rural landscape would not be so diminished as to significantly detract from the Dyffryn Basin and Ridge Slopes Special Landscape Area (SLA). (IR 73)

Cumulative impacts

7. The Inspector states that they examined the two other recent solar farm planning permissions, Oaklands and Parc Dyffryn, in conjunction with this site to assess the cumulative impact of the developments on character and appearance. (IR 70).

8. The Inspector notes due to the undulating topography and intervening woodland it was not possible to see all three sites in one view. The overriding sense would remain that of looking over a rural landscape dominated by woodland and pasture enclosed by mature hedgerows, dotted with farms and small settlements. (IR 75-76)

9. The Inspector concludes that the proposed development would not have an unacceptable impact on the character and appearance of the area and complies with relevant development plan policies.

Historic Assets

10. The Inspector considers historic sites which may be affected by the development but states that the sites are screened or partially screened by hedges and woodland and topography. (IR 78-80)

11. The Inspector has recommended a condition that requires submission of a historic environment mitigation scheme to safeguard any archaeological interests on site. (IR 81)

12. The Inspector concludes that the proposed development would preserve the setting of historic assets and complies with relevant policies in the Vale of Glamorgan Local Development Plan (LDP) (IR 82).

Ecology

13. In relation to goshawks, the Inspector is satisfied there is no reason to dispute the findings of the Environmental Statement which states that the goshawk sightings probably related to the same individual and no evidence of breeding was recorded.

14. The Inspector notes that there will be six skylark breeding territories lost, but four skylark plots will be created in the fields west of the site. The new plots are expected to enhance the value of the fields to breeding skylark, and potentially extend the breeding season to enable more than one attempt to breed. The Inspector is content that as Natural Resources Wales (NRW) is satisfied with the barn owl survey and its recommendations, there is no need for further surveys. (IR 84)

15. The Inspector recommends a Construction Environmental Management Plan (CEMP) is submitted to the Local Planning Authority (LPA) (Condition 5). The CEMP will include measures to avoid and mitigate impacts on habitats and species including further surveys, avoiding works to hedgerows and grassland when birds are breeding and measures to safeguard reptiles, including slow worm and grass snakes. Post construction, an Environmental Mitigation Enhancement and Management Plan (EMEMP) (Condition 7) would include a rare arable weeds conservation strategy, the creation of refugia for reptiles and amphibians, bird boxes and a barn owl nest box and bat roost boxes. (IR 85)

16. The Inspector concludes that with a number of measures and subject to measures contained in the CEMP and EMEMP the development complies with relevant development plan policies and Planning Policy Wales (PPW).

Other Considerations

17. The Inspector assesses other considerations and concerns in IR 87-95.

Highways

18. The Inspector notes Dyffryn Lane is narrow and only single lane in places. There is no cogent evidence to support claims that construction would take up to two years. The proposed escort/pilot system would ensure safety, but the construction and decommissioning periods will inevitably be disruptive and cause inconvenience. However, the six to nine month construction phase covers only a small proportion of the 40 year lifetime of the proposed development. Further, the average six heavy goods vehicle (HGV) movements per day would be spread over an eight-hour period (9.00 to 17.00) so there would not be a constant flow throughout the day. (IR 87)

Living conditions

19. The Inspector states that any adverse impacts from noise and disturbance would only occur in the construction and decommissioning phases of the development and would be mitigated by measures in the CEMP. (IR 88)

20. The Inspector acknowledges that the Glint and Glare Assessment reports solar reflection are geometrically possible towards 31 dwellings. However, in all cases existing vegetation and/or intervening terrain is expected to significantly obstruct the views. The Inspector notes that there is no technical evidence to question these findings. (IR 88)

21. The Inspector can see no reason why the substation would pose a risk to life providing it is properly installed and maintained (IR 89).

Agricultural land

22. The Inspector notes there would be no loss of Best and Most Versatile agricultural land as a result of this proposed development. (IR90)

Flooding and drainage

23. The Inspector notes that the site lies in Zone A except the cable route which crosses Zone C1 and C2. The cable will be drilled directly and have little if any impact on flood risk on site and elsewhere. (IR 91)

24. The Inspector states that surface water drainage is subject to a second consenting procedure, but the development is not anticipated to increase water runoff. New vegetation growing below and between the panels would dissipate run off and reduce soil erosion. (IR 92)

25. The Inspector notes that solar panels are designed to be outdoors and there is no cogent evidence that the coating will wash off the panels (IR 93).

Tourism and use of footpaths

26. Given the Inspector's conclusions regarding the impact on the character and appearance of the area and traffic, they do not consider the development would have a material impact on tourism or businesses in the area. (IR 94)

27. The Inspector notes footpaths cross the valley but considers that the time walkers spend walking through the panels would be short and they do not consider the overall enjoyment of the path and countryside would be affected. The panels will be softened and screened by new hedgerows over time. (IR 95)

Conditions and Obligations

28. The Inspector has provided a list of planning conditions which they consider satisfy the tests set out in Circular 16/14: The Use of Planning Conditions in Development Management (IR 96-98).

Inspector's Planning Balance and Overall Conclusion

29. The Inspector notes that Future Wales (FW) policy 17 requires decision makers to give significant weight to the need to meet the Welsh Government's renewable energy targets and the scheme would have an installed generating capacity of about 42MW (IR 99).

30. The Inspector considers that the landscape has the capacity to accommodate the proposed development without harm and, subject to conditions, would not have adverse impact nearby residents, heritage or ecological interests or highway safety (IR 99).

31. The Inspector concludes the proposal accords with FW Policy 9, 17 and 18 and LDP polices SP1, SP10, MG17, MG21, MD8 and MD19. (IR 100)

Recommendations

32. The Inspector recommends that planning permission is granted, subject to conditions.

Conclusion and Decision

33. I agree with the Inspector's appraisal of the main considerations, the conclusions of the IR and the reasoning behind them, and I accept the recommendation. Therefore, I hereby grant planning permission for CAS-02112-T2N0G8, subject to the conditions in the Annex to this decision letter.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 ("WFG Act")

34. The Welsh Ministers must, in accordance with the WFG Act, carry out sustainable development. This includes taking all reasonable steps to meet their well-being objectives.

Well-being objectives

35. I have considered the extent to which granting planning permission meets the Welsh Government's well-being objectives. I recognise there will be some temporary negative environmental effects during construction and decommissioning phases. Although these impacts would be mitigated through the Construction Environmental Management Plan (CEMP) they would have a limited negative effect on the objective of making our cities, towns and villages even better places in which to live and work.

36. However, overall the decision would have a positive effect on the objectives to "Build an economy based on the principles of fair work, sustainability and the industries and services of the future", "Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation" and "Embed our response to the climate and nature emergency in everything we do". The effect of this decision on the other objectives is neutral.

37. In reaching my decision on the application, I have taken into account the ways of working set out at section 5(2) of the WFG Act and 'SPSF1: Core Guidance, Shared Purpose: Shared Future – Statutory Guidance on the WFG Act'.

Looking to the long-term

38. The decision takes account of the long-term objective to generate 70% of consumed electricity in Wales by renewable means by 2030 in order to combat the climate emergency.

Involving people/Collaborating with others

39. Within the framework of a statutory decision-making process, which is governed by prescribed procedures, the application was subject to publicity and consultation, providing the opportunity for public and stakeholder engagement. Representations received through these procedures have been considered and taken into account in making a determination on this application.

Taking an integrated approach

40. The decision has taken account of the development plan and its integration of economic, social and environmental strands across spatial scales. It has also taken account of the objectives of those public sector organisations involved in the

consultation process which are pursuing their own well-being objectives under the WFG Act such as NRW.

Prevention

41. The decision takes account of the need to increase renewable energy production and combat the climate emergency, as well as increasing energy security.

Reasonable steps

42. I have considered whether, having regard to the Welsh Ministers' wellbeing duty, it would be reasonable to take a different decision. I note the alternative decision would be to refuse planning permission for the development. This would negatively impact on the objective to "Build an economy based on the principles of fair work, sustainability and the industries and services of the future", "Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation" and "Embed our response to the climate and nature emergency in everything we do". The effect of this alternative decision on the other objectives would be neutral. Consequently, I consider that the decision to grant planning permission subject to conditions is a reasonable step in meeting the Welsh Ministers' well-being objectives.

43. A copy of this letter has been sent to the Vale of Glamorgan Council.

Yours sincerely

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Annex
Conditions – CAS-02112-T2N0G8

44. The development shall begin no later than five years from the date of this decision.

    Reason: To conform with the requirements of Section 91 of the Town and Country Planning Act 1990.

45. The development hereby permitted shall be carried out in accordance with the following plans:

    Site Location Plan: JPW1781/008

    Proposed Site layout Plan: LRP008 – PL-01/18

    Typical PV Panel Section: LRP008-SD-01/03

    132kV DNO Substation Plan: LRP008-SD-02/01

    132kV DNO Substation (Section): LRP008-SD-03/01

    Customer Substation Floor Plan: LRP008-SD-04/01

    Customer Substation Elevations: LRP008-SD-05/01

    Inverter/Transformer: LRP008-SD-06/01

    Security Fencing & CCTV: LRP008-SD-07/01

    Security Gates: LRP008-SD-08/01

    Access Track Cross Section: LRP008-SD-09/01

    Temporary Construction Compound: LRP008-SD-10/02

    Palisade Fencing & CCTV: LRP008-SD-11/01

    Existing 132kV Tower with CSE Platform: LRP008-SD-12/03

    Reason: To ensure that the development is carried out in accordance with the approved plans, drawings and documents submitted with the application

46. The permission hereby granted shall expire 40 years from the date when electrical power is first exported ('first export date') to the electricity grid network, excluding electricity exported during initial testing and commissioning. Written confirmation of the first export date shall be provided to the local planning authority no later than one calendar month after the event.

    Reason: In the interests of the character and appearance of the area in accordance with LDP Policy MG17.

47. No later than 12 months before the end of the 40-year operating period (or within 6 months of the permanent cessation of electricity production) a decommissioning and

site restoration scheme ('Decommissioning Scheme') shall be submitted to the local planning authority in writing. The Decommissioning Scheme shall include

iii) a method statement detailing the process and extent of removal of surface elements of the photovoltaic solar farm and associated development and any foundations, anchor systems, trackways and subsurface cabling and associated works and

iv) site restoration measures following all decommissioning operations.

The Decommissioning Scheme, as approved in writing by the local planning authority, shall be carried out in accordance with the approved details and timescales.

Reason: In the interests of the character and appearance of the area in accordance with LDP Policy MG17.

48. No development or site clearance shall take place until a Construction Environmental Management Plan (CEMP) has been submitted to, and approved in writing by, the local planning authority. The CEMP shall include the following details:

- The parking of vehicles of site operatives and visitors;
- Loading and unloading of plant and materials;
- Storage of plant and materials and vehicle maintenance areas;
- Security hoardings;
- Wheel washing facilities;
- Measures to control and mitigate the emission of odour, dust, smoke, other airborne pollutants and dirt;
- A scheme for recycling/disposing of waste resulting from demolition and construction works,
- Hours of work;
- Lighting;
- Management, control and mitigation of noise and vibration;
- Details of topsoil strip, storage and amelioration for re-use, measures to prevent soil run off and suspended solid pollution;
- Species and habitat protection and mitigation measures;

The construction of the development shall be undertaken in accordance with the approved CEMP.

Reason: In the interests of the protection of living conditions of nearby residents and the environment in accordance with LDP Policy MD7.

49. Notwithstanding the Landscape and Ecology Masterplan, no development or site clearance shall take place until a landscaping scheme including a schedule for its implementation has been submitted to and approved in writing by the local planning authority. The scheme shall include indications of all existing trees (including spread and species) and hedgerows on the land, identify those to be retained and set out measures for their protection throughout the course of development (during both construction and operational phases). All planting, seeding or turfing comprised in the approved details of landscaping shall be carried out in accordance with the agreed schedule for its implementation and any trees or plants which within a period of 5 years from the completion of the development die, are removed or become seriously damaged or diseased shall be replaced in the next planting season with others of similar size and species.

Reason: In the interests of the character and appearance of the area in accordance with LDP Policy MG17.

50. No development or site clearance shall take place until an Environmental Mitigation, Enhancement and Management Plan has been submitted to and approved in writing by the local planning authority. The measures within the plan shall be carried out in accordance with the approved details for the lifetime of the development.

    Reason: To ensure biodiversity impacts are mitigated and appropriate enhancement and management is secured, in accordance with LDP Policy MD9.

51. No development or site clearance shall take place until the applicant, or their agents or successors in title, has secured agreement for a written scheme of historic environment mitigation, which has been submitted by the applicant, and approved by the local planning authority. The programme of work shall be carried out in accordance with the approved details.

    Reason: In order to safeguard archaeology in accordance with LDP Policy MD8.

52. No development or site clearance shall take place until a Construction Traffic Management Plan (CTMP) has been submitted to and approved in writing by the local planning authority. The CTMP shall include details of proposed routes for heavy construction vehicles, areas within the site for turning and passing to allow vehicles to leave the site in a forward gear. Development shall be carried out in accordance with the approved details.

    Reason: In the interests of highway safety in accordance with LDP Policy MD7.

53. Any aggregate (other than virgin quarry stone or stone from a certified source) or recycled aggregate material to be imported shall be assessed for chemical or other potential contaminants in accordance with a scheme of investigation which shall be submitted to and approved in writing by the local planning authority in advance of its importation. Only approved material shall be imported.

    Reason: To ensure that any unacceptable risks from land contamination are minimised in accordance with LDP Policy MD7.

Notification of initiation of development and display of notice

You must comply with your duties in section 71ZB (notification of initiation of development and display of notice: Wales) of the Town and Country Planning Act 1990. The duties include the following:

Notice of initiation of development

Before beginning any development to which this planning permission relates, notice must be given to the local planning authority in the form set out in Schedule 5A to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 or in a form substantially to the like effect. The form sets out the details which must be given to the local planning authority to comply with this duty.

Display of notice

The person carrying out development to which this planning permission relates must display at or near the place where the development is being carried out, at all times when it is being carried out, a notice of this planning permission in the form set out in Schedule 5B to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 or in a form substantially to the like effect. The form sets out the details the person carrying out development must display to comply with this duty.

The person carrying out development must ensure the notice is:

(a) firmly affixed and displayed in a prominent place at or near the place where the development is being carried out;
(b) legible and easily visible to the public without having to enter the site; and
(c) printed on durable material. The person carrying out development should take reasonable steps to protect the notice (against it being removed, obscured or defaced) and, if need be, replace it.